## Ble alla i gael rhagor o wybodaeth?

I gael rhagor o wybodaeth am PDOC gweler:

SCAN ME

https://www.healthtalk.org/family-experiences-vegetative-and-minimally-conscious-states/overview

SCAN ME

https://cdoc.org.uk/publications/resources-for-families-and-practitioners/

SCAN ME

https://www.rcplondon.ac.uk/guidelines-policy/prolonged-disorders-consciousness-following-sudden-onset-brain-injury-national-clinical-guidelines

Atodiad 4b

**Diweddarwyd Awst 2022**

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Cardiff and Vale University Health Board

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Cardiff and Vale University Health Board

# Anhwylder Ymwybyddiaeth Cyfnod Estynedig (PDOC)

Canllaw i deuluoedd, ffrindiau, gofalwyr a'r rhai sy'n gweithio gydag unigolion â PDOC

Cysylltwch â Cara Norman (Cydlynydd Uned)
PDOC.SERVICE.Cav@wales.nhs.uk 02921 827644 / 02921 827

## Pa mor hir y gall asesiad PDOC ei gymryd?

Bydd y cyfnod asesu yn amrywio yn dibynnu ar anghenion yr unigolyn ond yn gyffredinol mae'n cymryd 3 wythnos ar gyfer asesiad cychwynnol a gallai gymryd hyd at 12 wythnos ar gyfer y broses gyfan. Mae'r profion yn cael eu hailadrodd dros amser i ystyried y gall person sy'n gwbl anymwybodol wneud synau neu symudiadau ar hap y gellid eu camgymryd am ymateb bwriadol, a hefyd os yw rhywun yn lled-ymwybodol efallai y bydd yn ymateb weithiau, ac weithiau ddim, felly drwy ailadrodd profion gellir gwneud yn siŵr nad oes unrhyw ymateb yn cael ei golli.

## Sut gall teulu, ffrindiau neu ofalwyr helpu?

Mae gan deuluoedd a ffrindiau unigolion â PDOC rôl werthfawr drwy gydol y broses asesu, ac wrth gyfrannu at y prosesau gwneud penderfyniadau. Gall unigolion ymateb yn wahanol gyda theulu a gofalwyr felly mae eich mewnbwn yn hynod o bwysig. Gofynnir i chi lenwi ffurflenni arsylwi wrth ochr y gwely neu ddyddiadur i gofnodi'r ymatebion y byddwch yn arsylwi arnynt. Gall staff sy'n gweithio gyda'r unigolyn hefyd ddefnyddio'r rhain i gofnodi unrhyw ymatebion y maent wedi arsylwi arnynt. Mae eich perthynas unigryw gyda'r unigolyn yn golygu y gallwch roi mewnwelediad pwysig i'w diddordebau a'u hoffterau.

## Beth mae PDOC yn ei olygu?

Mae PDOC yn sefyll am *Prolonged Disorder of Consciousness*, sef Anhwylder Ymwybyddiaeth Cyfnod Estynedig, sy'n cwmpasu cyflwr diymateb (VS) a chyflwr lled-ymwybodol (MCS). Mae "Anhwylder Ymwybyddiaeth" yn cyfeirio at unigolyn nad yw'n dangos unrhyw ymwybyddiaeth (neu ychydig iawn) ohono'i hun a'i amgylchedd yn dilyn anaf difrifol i'r ymennydd. Mae 'Cyfnod Estynedig' yn y term PDOC yn bwysig oherwydd mae'n amlygu bod yr anhwylder hwn wedi parhau ers peth amser sydd fel arfer yn golygu bod gan y person anafiadau difrifol iawn i'r ymennydd.

Bydd rhai pobl â PDOC yn symud trwy wahanol gamau o ymwybyddiaeth wrth iddynt ddod i gyflwr o ymwybyddiaeth lawn (er eu bod yn dal yn debygol o fod ag anableddau dwys a pharhaol). Bydd rhai, fodd bynnag, yn aros yn VS neu MCS am weddill eu hoes.

Bydd rhywun sy'n dod allan o gyflwr MCS yn gallu dangos eu bod yn cyfathrebu'n rhyngweithiol ac yn gyson mewn ffordd ddibynadwy ac ystyrlon, neu'n gallu defnyddio gwrthrychau mewn ffordd bwrpasol (neu'r ddau beth hyn).

## Pam asesu?

Argymhellir asesiad PDOC ffurfiol yn aml ond **nid** yw'n hanfodol. Gan na all yr unigolyn â PDOC roi caniatâd i'r asesiadau hyn ei hun, mae'n bwysig i'r Uwch Glinigwr wneud penderfyniadau ar ei ran sy'n adlewyrchu ei ddymuniadau, gwerthoedd, teimladau a chredoau blaenorol. Mae hyn yn wir am bob penderfyniad a wneir ynghylch yr unigolyn, gan gynnwys y rhai ynghylch triniaeth cynnal bywyd. Gelwir hwn yn benderfyniad 'er lles pennaf'.

Dylech fod yn rhan o'r penderfyniadau am ofal yr unigolyn cyn, yn ystod, neu ar ôl i asesiad PDOC gael ei gwblhau, neu hyd yn oed heb asesiad PDOC o gwbl. Mae'n bwysig eich cynnwys oherwydd eich bod yn adnabod yr unigolyn cyn ei anaf a gallwch roi gwybod i'r tîm clinigol pa benderfyniad y credwch y gallai'r person ei hun fod wedi'i wneud yn y sefyllfa hon (Gweler llyfryn gwybodaeth ar wahân ar rôl teulu a ffrindiau mewn penderfyniadau ynghylch triniaeth cynnal bywyd gyda PDOC – Atodiad 4b Canllawiau PDOC RCP).

**Beth yw nod asesiad PDOC?**

Nod yr asesiad yw cadarnhau diagnosis PDOC a chanfod lle mae'r unigolyn ar y sbectrwm o Anhwylder Ymwybyddiaeth. Gall hyn helpu i hysbysu a all lefel ymwybyddiaeth y person newid yn y dyfodol ai peidio, ac arwain y broses o gynllunio gofal a gwneud penderfyniadau yn y dyfodol.

**Beth mae asesiad PDOC yn ei olygu?**

Mae 3 asesiad gwahanol y gellid eu defnyddio wrth asesu PDOC, sef:

- WHIM (Matrics Anafiadau i'r Pen Wessex)
- CRS-R (Graddfa Adfer o Coma - Diwygiedig)
- SMART (Techneg Asesu ac Adsefydlu Modd Synhwyraidd)

Mae'r asesiadau hyn wedi'u datblygu'n benodol i nodi a oes unrhyw ymwybyddiaeth mewn unigolion sydd â PDOC yn dilyn anaf difrifol i'r ymennydd.

**Pwy sy'n cynnal asesiadau PDOC?**

Dim ond staff sydd â gwybodaeth a phrofiad o weithio gyda PDOC ddylai gynnal yr asesiadau hyn. Gallai hwn fod yn Therapydd Galwedigaethol, Therapydd Iaith a Lleferydd neu Weithiwr Iechyd Proffesiynol arall, a byddant wedi cael hyfforddiant arbennig i sicrhau eu bod yn gwybod sut i gynnal yr asesiadau a dehongli'r canlyniadau.

**Beth sy'n digwydd yn ystod y broses asesu PDOC**?

Bydd yr asesydd PDOC yn gweithio gyda'r teulu a'r tîm cyfan i sicrhau bod yr unigolyn yn cael y cyfle gorau i ymateb yn ystod y cyfnod asesu. Er enghraifft, sicrhau eu bod wedi'u lleoli'n gywir i'w helpu i weld a symud. Yna mae'r aseswr yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau i asesu ymatebion y person i olwg, clyw a chyffyrddiad. Mae symudiad, cyfathrebu a bod yn effro hefyd yn cael eu hystyried. Bydd yr aseswr hefyd yn gweithio gyda chi i glywed am unrhyw ymatebion y gallech fod wedi arsylwi arnynt.